Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Croeso i Bawb – Asesiad Hygyrchedd Busnes

## Canllaw Ymarferol i Hygyrchedd ar gyfer Busnesau Twristiaeth a Lletygarwch yng Nghymru

# Taith gyfan yr ymwelydd

Mae creu profiad croesawgar a hygyrch i ymwelwyr yn golygu ystyried taith gyfan yr ymwelydd.

Gall rhwystrau godi ar unrhyw gam, o ddod o hyd i wybodaeth cyn ymweld a defnyddio cyfleusterau a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar y safle.

Mae'r tablau isod yn amlinellu taith nodweddiadol ymwelydd, gan dynnu sylw at bwyntiau cyswllt allweddol, ystyriaethau hygyrchedd ac enghreifftiau o welliannau a all fod o fudd i ystod eang o ymwelwyr.

## Pethau i'w Hystyried

Mae'r themâu hyn yn cynnig ffordd ymarferol o ystyried y gwahanol anghenion mynediad y gall ymwelwyr eu cael drwy gydol eu taith.

Maent yn annog chi fel busnes i feddwl yn eang am hygyrchedd, gan sicrhau bod cyfleusterau, gwybodaeth, gwasanaeth cwsmeriaid ac amgylcheddau yn groesawgar ac yn gynhwysol i bobl ag amrywiaeth eang o anghenion ac amgylchiadau.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54907.

| Creu Amgylcheddau Cynhwysol | Enghreifftiau |
|---|---|
| Symudedd | Mynediad heb risiau drwy rampiau a lifftiau; llwybrau, ystafelloedd ac ystafelloedd ymolchi hygyrch, gyda digon o le i bobl sy'n defnyddio cymhorthion symudedd symud o gwmpas yn annibynnol. |
| Golwg | Arwyddion clir â chyferbyniad uchel; llwybrau heb rwystrau; gwybodaeth gyffyrddol neu glywedol lle bo angen; goleuadau da a chanllawiau ar risiau a rampiau. |
| Clyw | Dolen glyw yn y dderbynfa; rhybuddion argyfwng gweledol mewn ystafelloedd hygyrch; gwybodaeth â chapsiynau neu ar ffurf ysgrifenedig; a mynediad at ddehongliad BSL neu staff sy'n gallu arwyddo. |
| Niwroamrywiaeth | Gwybodaeth glir ymlaen llaw a phrosesau rhagweladwy; mannau tawel ac ardaloedd â llai o ysgogiadau; cymorth hyblyg ac ymwybyddiaeth staff o wahanol arddulliau cyfathrebu ac anghenion synhwyraidd. |
| Anableddau Dysgu | Gwybodaeth hawdd ei darllen ac iaith glir; cyfarwyddiadau clir, amser ychwanegol lle bo angen, a chymorth gan staff sy'n gwirio dealltwriaeth heb wneud rhagdybiaethau. |
| Iechyd Meddwl | Mannau tawel; gwybodaeth glir; trefniadau hyblyg lle bo modd; preifatrwydd; a staff sy'n ymateb yn barchus i bobl sy'n profi gofid neu orbryder. |
| Namau nad ydynt yn weladwy | Toiledau ac ystafelloedd hygyrch; arwyddion clir; cymorth hyblyg, seddi a mannau gorffwys; ac ymwybyddiaeth staff nad yw anghenion mynediad bob amser yn weladwy. |
| Teuluoedd a Gofalwyr | Lle ar gyfer pramiau a chymhorthion symudedd; cyfleusterau teulu hygyrch; cydnabod gofalwyr a chynorthwywyr personol a chymorth hyblyg i bobl sy'n mynychu gydag eraill. |
| Ymwelwyr Hŷn | Seddi, goleuadau a chymorth i gyrraedd ystafelloedd; mannau gorffwys; llwybrau heb risiau lle bo modd; cymorth parchus a gynigir heb wneud rhagdybiaethau am ba gymorth sydd ei angen. |

Defnyddiwch y dull hwn i adolygu eich busnes drwy lens hygyrchedd ac ystyried yr hyn y gallai ymwelwyr ei angen ym mhob pwynt cyswllt.

Dilynwch daith y cwsmer o'r cam cynllunio a chyrraedd, drwy weithgareddau a chyfleusterau, hyd at adael.

# Ystyriaethau Hygyrchedd ar Draws Taith Yr Ymwelydd – Asesiad Hygyrchedd o fy Musnes

| Pwynt Cyswllt / Gofod | Beth Mae Angen i Ymwelwyr ei Wneud | Ystyriaethau Hygyrchedd | Gwelliannau Posibl | Beth sydd gennyf eisoes yn fy musnes | Pa fuddsoddiad y gallwn ei wneud i wella'r hygyrchedd yn fy musnes | O 1-10, pa mor flaenoriaethol yw hyn pe bai cyllid ar gael? (1 = isel, 10 = uchel) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam yn Nhaith yr Ymwelydd: **Cyn Cyrraedd / Cyrraedd** | | | | | | |
| Gwefan a system archebu | Dod o hyd i wybodaeth a gwneud archeb | Sicrhau bod y wefan yn gydnaws â darllenwyr sgrin er mwyn i bobl â nam ar eu golwg allu ei defnyddio.<br><br>Darparu gwybodaeth hygyrchedd glir am y fynedfa, yr ystafelloedd gwely a'r mannau cyffredin, yn enwedig ar gyfer gwesteion niwroamrywiol a'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig. | Ymarferoldeb neu offer ar-lein newydd sy'n gwella Hygyrchedd. Cyhoeddi canllawiau hygyrchedd manwl, gwella hygyrchedd y wefan, ychwanegu ffotograffau a fideos | | | |

| Pwynt Cyswllt / Gofod | Beth Mae Angen i Ymwelwyr ei Wneud | Ystyriaethau Hygyrchedd | Gwelliannau Posibl | Beth sydd gennyf eisoes yn fy musnes | Pa fuddsoddiad y gallwn ei wneud i wella'r hygyrchedd yn fy musnes | O 1-10, pa mor flaenoriaethol yw hyn pe bai cyllid ar gael? (1 = isel, 10 = uchel) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio'r daith | Cynllunio teithio a chyrraedd | Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, manylion parcio, llwybrau hygyrch | Creu canllawiau mynediad a chynllunwyr teithiau y gellir eu lawrlwytho | | | |
| Maes parcio | Cyrraedd a gadael y cerbyd | Mannau parcio hygyrch, arwynebau gwastad, goleuadau, cyrbau isel | Cynyddu nifer y mannau hygyrch, gwella marciau llwybrau a goleuadau, agos i'r lleoliad | | | |
| Man gollwng | Symud o'r cerbyd i'r lleoliad | Digon o le i drosglwyddo, cysgod, llwybr di-risiau | Creu ardal gollwng hygyrch benodedig | | | |
| Nesâd allanol | Teithio o'r maes parcio neu fan trafnidiaeth i'r fynedfa | Llwybrau llyfn, seddi, graddiannau, canllawiau, arwyddion | Gwella arwynebau llwybrau, ychwanegu mannau gorffwys | | | |
| Mynedfa | Mynd i mewn i'r adeilad | Mynediad di- risiau, rampiau, lled drysau, drysau awtomatig, arwyddion clir | Gosod drysau awtomatig neu wella'r ddarpariaeth rampiau | | | |
| Llwybrau gadael | Gadael y lleoliad | Llwybrau hygyrch i allanfeydd a chysylltiadau trafnidiaeth | Gwella arwyddion a'r ddarpariaeth cymorth | | | |

| Pwynt Cyswllt / Gofod | Beth Mae Angen i Ymwelwyr ei Wneud | Ystyriaethau Hygyrchedd | Gwelliannau Posibl | Beth sydd gennyf eisoes yn fy musnes | Pa fuddsoddiad y gallwn ei wneud i wella'r hygyrchedd yn fy musnes | O 1-10, pa mor flaenoriaethol yw hyn pe bai cyllid ar gael? (1 = isel, 10 = uchel) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam yn Nhaith yr Ymwelydd: **Croeso / Cyfeiriadedd / Symud** | | | | | | |
| Derbynfa / desg docynnau | Cofrestru neu ofyn am gymorth | Dolen glyw, seddi, cownter is, cyfathrebu clir | Gosod dolen glyw, darparu rhan is o'r cownter, a chyfathrebu clir | | | |
| Arwyddion a phwyntiau gwybodaeth | Deall sut i lywio'r safle | Arwyddion cyferbyniad uchel, pictogramau, iaith glir | Cyflwyno seilwaith canfod ffordd a chymorth digidol | | | |
| Coridorau a llwybrau mewnol | Symud o amgylch yr adeilad | Digon o led, llwybrau di-rwystr, mannau gorffwys | Dileu peryglon baglu, gwella'r gofod cylchredeg | | | |
| Lifftiau | Mynediad i wahanol lefelau | Rheolyddion hygyrch, cyhoeddiadau sain, arddangosfeydd gweledol | Uwchraddio rheolyddion lifftiau ac arwyddion | | | |
| Grisiau | Symud rhwng lloriau | Canllawiau, ymylon cyferbyniadol, goleuo da | Gwella cyferbyniad gweledol a darpariaeth canllawiau | | | |

| Pwynt Cyswllt / Gofod | Beth Mae Angen i Ymwelwyr ei Wneud | Ystyriaethau Hygyrchedd | Gwelliannau Posibl | Beth sydd gennyf eisoes yn fy musnes | Pa fuddsoddiad y gallwn ei wneud i wella'r hygyrchedd yn fy musnes | O 1-10, pa mor flaenoriaethol yw hyn pe bai cyllid ar gael? (1 = isel, 10 = uchel) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam yn Nhaith yr Ymwelydd: **Cyfleusterau** | | | | | | |
| Toiledau | Defnyddio cyfleusterau hanfodol | Toiled hygyrch, canllawiau gafael, larwm argyfwng, lle trosglwyddo | Uwchraddio cynlluniau toiledau, cyflwyno cyfleusterau Mannau Newid lle bo'n briodol | | | |
| Ystafelloedd gwely / unedau llety | Aros dros nos | Ystafelloedd hygyrch, lle trosglwyddo, larymau gweledol, rheolyddion hygyrch | Creu mwy o ystafelloedd hygyrch a gwella'r wybodaeth am ystafelloedd | | | |
| Ystafelloedd ymolchi / ystafelloedd cawod | Golchi a chawod yn ddiogel | Cawodydd mynediad gwastad, canllawiau gafael, seddi cawod | Gosod ystafelloedd gwlyb, gwella cyferbyniad a gosodiadau | | | |
| Bwyty / caffi | Bwyta ac yfed yn gyfforddus | Seddi hygyrch, fformatau bwydlen hygyrch, a digon o le i symud ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn | Darparu dodrefn addasadwy, technoleg wrth y bwrdd | | | |
| Bar / cownteri gwasanaeth | Prynu bwyd a diod | Uchder cownter hygyrch, systemau ciwio clir | Gostwng mannau gwasanaeth a gwella opsiynau archebu | | | |

| Pwynt Cyswllt / Gofod | Beth Mae Angen i Ymwelwyr ei Wneud | Ystyriaethau Hygyrchedd | Gwelliannau Posibl | Beth sydd gennyf eisoes yn fy musnes | Pa fuddsoddiad y gallwn ei wneud i wella'r hygyrchedd yn fy musnes | O 1-10, pa mor flaenoriaethol yw hyn pe bai cyllid ar gael? (1 = isel, 10 = uchel) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam yn Nhaith yr Ymwelydd: **Profiad Ymwelwyr** | | | | | | |
| Atyniadau / ardaloedd gweithgareddau | Cymryd rhan mewn gweithgareddau | Llwybrau di-risiau, seddi, fformatau dehongli | Ychwanegu opsiynau mynediad amgen a dehongli hygyrch | | | |
| Ardaloedd chwarae | Plant yn chwarae ac yn rhyngweithio | Offer cynhwysol, chwarae synhwyraidd, arwynebau hygyrch | Cyflwyno nodweddion chwarae cynhwysol a mannau chwarae tawel | | | |
| Mannau cyfarfodydd neu ddigwyddiadau | Mynychu digwyddiadau a gweithgareddau | Cymhorthion clyw, seddi hyblyg, llinellau golwg clir | Buddsoddi mewn technoleg cymorth clyw a chynlluniau hygyrch | | | |
| Gerddi a mannau awyr agored | Archwilio ac ymlacio | Llwybrau hygyrch, seddi, lloches | Gwella'r ddarpariaeth o seddi a hygyrchedd llwybrau | | | |
| Llwybrau a theithiau cerdded | Llywio amgylcheddau awyr agored | Ansawdd yr arwyneb, graddiannau, gwybodaeth am lwybrau | Cyflwyno llwybrau hygyrch a graddio anhawster clir | | | |
| Mannau gwylio | Mwynhau'r golygfeydd a'r atyniadau | Llwyfannau gwylio hygyrch, seddi | Gwella llwybrau mynediad a chyfleoedd gwylio | | | |

| Pwynt Cyswllt / Gofod | Beth Mae Angen i Ymwelwyr ei Wneud | Ystyriaethau Hygyrchedd | Gwelliannau Posibl | Beth sydd gennyf eisoes yn fy musnes | Pa fuddsoddiad y gallwn ei wneud i wella'r hygyrchedd yn fy musnes | O 1-10, pa mor flaenoriaethol yw hyn pe bai cyllid ar gael? (1 = isel, 10 = uchel) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam yn Nhaith yr Ymwelydd: **Gwybodaeth / Cysur a Llesiant** | | | | | | |
| Gwybodaeth brintiedig a digidol | Cael mynediad at wybodaeth drwy gydol yr ymweliad | Fformatau amgen, iaith glir, cyferbyniad uchel | Gosod gwybodaeth 'Easy Read', sain a phrint bras | | | |
| Amgylchedd synhwyraidd | Teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus | Goleuo, acwsteg, lefelau torfeydd, mannau tawel | Creu gofodau sy'n gyfeillgar i synhwyrau neu ystafelloedd tawel | | | |

# Neges Derfynol

Nid yw cefnogi eich busnes i wella ei hygyrchedd yn ymwneud â gwneud y lleiafswm posibl; mae'n ymwneud â chymryd cam ymlaen ac arwain y ffordd.

- Cyrraedd sylfaen ehangach o gwsmeriaid ffyddlon.
- Cynyddu incwm a denu mwy o archebion.
- Cryfhau eich enw da.
- Diogelu eich busnes at y dyfodol.
- Helpu i gryfhau safle Cymru fel cyrchfan hygyrch o safon fyd-eang.